Senedd Cymru
**Ymchwil y Senedd**

# Cymorth i'r Celfyddydau
## - canllaw i etholwyr

Mai 2021



www.senedd.cymru

Senedd Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl. Mae'r Senedd, fel y'i gelwir, yn deddfu ar gyfer Cymru, yn cytuno ar drethi yng Nghymru, ac yn dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hon ar wefan y Senedd:
**www.ymchwil.senedd.cymru**

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

**Senedd Cymru**
**Tŷ Hywel**
**Bae Caerdydd**
**CF99 1SN**

Ffôn: **0300 200 6298**
E-bost: **Robin.Wilkinson@Senedd.Cymru**
Twitter: **@SeneddYmchwil**
Gwefan: **ymchwil.senedd.cymru**

**© Hawlfraint Comisiwn y Senedd Cymru 2021**
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Senedd Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Senedd Cymru
**Ymchwil y Senedd**

# Cymorth i'r Celfyddydau
## - canllaw i etholwyr

Mai 2021

**Awduron:**
Robin Wilkinson ac Emma Manning

**Trosolwg o'r papur:**
Mae'r canllaw hwn yn amlinellu ac yn cyfeirio at ffynonellau o gymorth ariannol yn ymwneud â'r celfyddydau

# Cynnwys


Cymorth Cyngor Celfyddydau Cymru ..... 1

- Ariannu unigolion ..... 1
- Ariannu sefydliadau ..... 1
- Dysgu Creadigol ..... 1
- Rhyngwladol ..... 2

Llenyddiaeth Cymru ..... 2

Y Sefydliad PRS for Music ..... 3

- Cyllid i Sefydliadau ..... 3
- Cyllid i Rai sy'n Creu Cerddoriaeth ..... 4

Y Comisiwn Elusennau ..... 6

Grwpiau a Chlybiau Cymunedol ..... 6

- Ymddiriedolaeth Elusennol Stadiwm y Mileniwm ..... 6
- Sefydliad Clore Duffield ..... 7
- Ymddiriedolaeth Elusennol Woodward ..... 7
- Ymddiriedolaeth Austin a Hope Pilkington ..... 8
- Ymddiriedolaeth Elusennol Fidelio ..... 8
- Elephant Trust ..... 9
- Sefydliad Anchor ..... 9

Ymddiriedolaeth Leverhulme ..... 10

Ymddiriedolaeth Idlewild ..... 10

Ymddiriedolaeth Elusennol Colwinston ..... 10

Ymddiriedolaeth Elusennol Concertina ..... 11

Elusennau CHK ..... 11

Sefydliad Esmée Fairbairn ..... 11

Grant Ymddiriedolaeth Celfyddydau Fenton ..... 12

Sefydliad Foyle ..... 12

Sefydliad Garfield Weston ..... 13

Elusen y Groseriaid ..... 13

Jerwood Arts ..... 14

Sefydliad John Ellerman ..... 14

Sefydliad Teulu Ashley ..... 14

Sefydliad Paul Hamlyn ..... 15

Ymddiriedolaethau Elusennol Teulu Sainsbury ..... 15

Y Gronfa Gelf ..... 16

Ymddiriedolaeth Wakeham ..... 16

Sefydliad Wolfson ..... 16

Dyfarniadau i Gerddorion Ifanc ..... 17

Cwmni Skinners: Elusen Lady Neville ..... 17

Arian y Loteri ........ 18

Grantsnet ........ 18

Cymorth Awdurdodau Lleol ........ 19

Cynghorau Gwirfoddol Sirol ........ 21

# Cymorth Cyngor Celfyddydau Cymru

Elusen annibynnol yw Cyngor Celfyddydau, a sefydlwyd drwy Siarter Frenhinol ym 1994. Dyma'r corff swyddogol sy'n gyfrifol am ariannu a datblygu'r celfyddydau yng Nghymru, ac mae'n cael ei ariannu gan fwyaf gan Lywodraeth Cymru a'r Loteri Genedlaethol.

Caiff y cyllid a ddarperir gan Gyngor y Celfyddydau ei gategoreiddio yn bedwar math: **Unigolion**, **Sefydliadau**, **Dysgu Creadigol** a **Rhyngwladol.**

Mae Cyngor Celfyddydau Cymru wedi creu tudalen ar gyfer **Cymorth Coronafeirws**. Mae'n cynnwys diweddariadau a'r wybodaeth ddiweddaraf am y coronafeirws gan Gyngor y Celfyddydau yn ogystal â **ffynonellau eraill o arian** ar gyfer unigolion a sefydliadau y mae COVID-19 yn effeithio arnynt.

## Ariannu unigolion

- Mae'r cynllun **Cysylltu a Ffynnu** yn darparu cyllid ar gyfer datblygu cynigion cydweithredol rhwng sefydliadau, unigolion a gweithwyr proffesiynol creadigol.
- Cynllun a ariennir gan y Loteri yw **Creu** sy'n ariannu'r gwaith o ddatblygu a chreu profiadau celfyddydol o safon sy'n helpu unigolion a sefydliadau creadigol i ymgysylltu â'r cyhoedd.

## Ariannu sefydliadau

- Mae'r cynllun **Cysylltu a Ffynnu** yn darparu cyllid ar gyfer datblygu cynigion cydweithredol rhwng sefydliadau, unigolion a gweithwyr proffesiynol creadigol.
- Cynllun a ariennir gan y Loteri yw **Creu** sy'n ariannu'r gwaith o ddatblygu a chreu profiadau celfyddydol o safon sy'n helpu unigolion a sefydliadau creadigol i ymgysylltu â'r cyhoedd.
- Mae **cronfa Celfyddydau, Iechyd a Lles y Loteri Genedlaethol**yn agored i geisiadau partneriaeth gan sefydliadau.

## Dysgu Creadigol

- Mae cynllun **Cynefin: Pobol Dduon, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig Cymru** yn cynnig 16 diwrnod o gefnogaeth i ysgolion gan Ymarferydd Creadigol a gyflogir gan Gyngor y Celfyddydau, yn ogystal â grant o £2,000 tuag at adnoddau i gefnogi'r prosiect.
- Mae cynllun **Ysgolion Creadigol Arweiniol** yn canolbwyntio ar ddatblygu dulliau

creadigol athrawon a dysgwyr ar draws y cwricwlwm. Mae ysgolion yn gwneud cais i ymuno â'r Cynllun am ddwy flynedd academaidd, gan dderbyn grant o £10,000 a chymorth "Asiant Creadigol".

- Mae'r llinyn **Cydweithio Creadigol** yn canolbwyntio ar weithgareddau celfyddydol, diwylliannol a chreadigol sy'n wahanol i'r arfer. Gall ysgolion a/neu sefydliadau celfyddydol ymgeisio am rhwng £5,000 a £15,000 i ddatblygu prosiectau mwy uchelgeisiol a chynaliadwy.
- Mae **Ewch i Weld** yn gronfa y gellir ei ddefnyddio er mwyn ariannu ymweliadau â digwyddiadau celfyddydol o safon mewn orielau, theatrau, canolfannau celfyddydol a lleoliadau eraill.

## Rhyngwladol

- Mae'r **Gronfa Cyfleoedd Rhyngwladol** yn darparu cyllid ar gyfer datblygu a chyflwyno gwaith rhyngwladol.
- Mae'r **Gronfa Cyfleoedd Rhyngwladol ar gyfer unigolion** yn helpu i ddatblygu cysylltiadau a gweithgareddau rhyngwladol.
- Yn ogystal â'r cynlluniau uchod, mae cynllun **Noson Allan/Night Out** Cyngor y Celfyddydau yn gweithio gydag awdurdodau lleol i helpu grwpiau o wirfoddolwyr i drefnu perfformiadau artistig yn eu cymunedau.

**I gael rhagor o wybodaeth:**

**www.arts.wales/cy**

# Llenyddiaeth Cymru

Llenyddiaeth Cymru yw'r cwmni cenedlaethol ar gyfer datblygu llenyddiaeth yng Nghymru, ac mae'n cael ei ariannu yn bennaf gan Gyngor y Celfyddydau. Mae'n elusen gofrestredig sy'n gweithio i ysbrydoli cymunedau, datblygu awduron a dathlu diwylliant llenyddol Cymru. Mae'n hwyluso, ariannu ac yn cyflwyno rhaglen lenyddol uniongyrchol ledled Cymru.

Mae'r cymorth y mae'n ei gynnig yn cynnwys:

- Caiff **Ysgoloriaethau i Awduron** eu dyfarnu'n flynyddol a gellir eu dyfarnu i awduron ar bob cam o'u gyrfaoedd. Mae'r ysgoloriaethau yn galluogi awduron i ganolbwyntio ar ddatblygu gwaith penodol sydd ar y gweill dros gyfnod o 12 mis. Mae'r ysgoloriaethau yn symiau penodol o £3,000, ac mae dyddiad cau blynyddol ar gyfer ceisiadau.

- Mae'r **Cynllun Mentora i Awduron** yn cynnig cymorth a chyngor ymarferol i awduron, i ddatblygu gwaith penodol sydd ar y gweill i safon cyhoeddi.
- Mae **Awduron ar Daith** yn darparu hyd at 50% o ffioedd awduron ar gyfer digwyddiadau llenyddol. Rhaid i'r digwyddiadau ymwneud ag ysgrifennu creadigol neu ddefnyddio iaith a llenyddiaeth mewn modd creadigol, neu hyrwyddo, gwerthfawrogi neu ddatblygu'r arfer hwnnw, er enghraifft gweithdai, darlithoedd, darlleniadau neu gynadleddau.

**I gael rhagor o wybodaeth:**

**www.llenyddiaethcymru.org**

# Y Sefydliad PRS for Music

Y Sefydliad PRS for Music yw noddwr mwyaf cerddoriaeth newydd o bob math yn y DU, gyda'r nod o ysgogi creu cerddoriaeth newydd yn y DU a chynorthwyo'r broses.

Mae gan y Sefydliad PRS lawer o fentrau sy'n darparu cymorth ariannol ar gyfer creu, perfformio a/neu hyrwyddo cerddoriaeth ragorol. Mae'r mentrau hyn wedi'u rhannu'n ddau faes cyffredinol: **cyllid i sefydliadau** a **chyllid i rai sy'n creu cerddoriaeth**.

## Cyllid i Sefydliadau

Mae'r Sefydliad PRS yn cefnogi hyrwyddwyr, sefydliadau datblygu talent, gwyliau, lleoliadau, curaduron a grwpiau perfformio mawr. Gall sefydliadau wneud cais i'r cynlluniau canlynol:

### Y Gronfa Agored i Sefydliadau

Mae'r **Gronfa Agored i Sefydliadau** yn cefnogi prosiectau cerdd newydd ac yn cynnig grantiau o hyd at £10,000. Rhaid i brosiectau ymwneud â chreu, perfformio a hyrwyddo cerddoriaeth newydd a galluogi cyfansoddwyr caneuon, cyfansoddwyr, neu artistiaid unigol, bandiau, cynhyrchwyr a pherfformwyr o bob cefndir i ddatblygu'n greadigol ac yn broffesiynol. Mae tri dyddiad cau ar gael yn y flwyddyn galendr.

### Beyond Borders

Mae **Beyond Borders** yn ysgogi ac yn cryfhau cydweithio trawsffiniol rhwng rhai sy'n creu cerddoriaeth, perfformwyr a chyflwynwyr. Mae'n cefnogi'r gwaith o greu, teithio a hyrwyddo cerddoriaeth newydd arloesol o safon ar draws pob genre ac yn annog ymgysylltu â chynulleidfaoedd ledled Cymru, Lloegr, yr Alban, Gogledd Iwerddon a Gweriniaeth Iwerddon trwy nifer o berfformiadau a gweithgareddau digidol. Mae grantiau o hyd at £15,000 ar gael i brosiectau.

### Resonate

Cronfa ac adnodd yw **Resonate** sy'n annog cerddorfeydd proffesiynol i gynnwys y darnau gorau o gerddoriaeth o Brydain o'r 25 mlynedd diwethaf yn eu repertoire. Nod y gronfa yw ysbrydoli mwy o berfformiadau, recordiadau a darllediadau o repertoire cyfoes rhagorol. Mae grantiau o hyd at £10,000 ar gael.

## Cyllid i Rai sy'n Creu Cerddoriaeth

Mae'r Sefydliad PRS yn ystyried y canlynol fel rhai sy'n creu cerddoriaeth: cyfansoddwyr caneuon, cyfansoddwyr, artistiaid, bandiau, cynhyrchwyr neu berfformwyr sy'n ysgrifennu eu cerddoriaeth eu hunain. Mae cyllid ar gyfer rhai sy'n creu cerddoriaeth yn cael ei rannu i gategorïau yn seiliedig ar ba gam y maent arno yn eu gyrfa:

### Pob lefel

Mae'r cyfleoedd cyllid o dan y categori **Pob Lefel** ar gael i rai sy'n creu cerddoriaeth yn ystod unrhyw gam yn eu gyrfa.

- **Women Make Music**: yn cefnogi datblygiad cyfansoddwyr caneuon a chyfansoddwyr benywaidd, traws ac anneuaidd rhagorol o bob genre a chefndir ar wahanol gyfnodau yn eu gyrfa.
- **Y Gronfa Agored ar gyfer Rhai sy'n Creu Cerddoriaeth**: yn cefnogi'r gwaith o ddatblygu cyfansoddwyr caneuon a chyfansoddwyr rhagorol o bob genre a chefndir ar wahanol gyfnodau yn eu gyrfa.
- **Sustaining Creativity Fund**: Yn cefnogi artistiaid, cyfansoddwyr caneuon a chyfansoddwyr i greu a datblygu pan fydd ei angen arnynt fwyaf. Mae'r rownd ddiweddaraf wedi'i haddasu i roi cymorth wedi'i dargedu i rai sy'n creu cerddoriaeth ddu mewn unrhyw genre a rhyw ledled y DU sydd wedi cael eu heffeithio gan y pandemig COVID-19.

## Cam Cynnar mewn Gyrfa

Mae'r cyfleoedd o dan y categori **Cam Cynnar mewn Gyrfa** fwyaf addas ar gyfer y rhai sydd yng nghamau cynnar eu gyrfa. Mae yna ystod o gynlluniau, gan gynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i'r canlynol:

- **Flash Funding**: yn mynd i'r afael â materion sy'n wynebu rhai newydd sy'n creu cerddoriaeth drwy ymateb i anghenion penodol gyda dull arloesol o ariannu, gan gynnwys cyflwyniadau fideo, troi cyflym ac arbenigwyr a phartneriaid proffil uchel yn y diwydiant.
- **Adopt a Music Creator:** mae'r cynllun hwn yn paru grwpiau sy'n aelod â rhai sy'n creu cerddoriaeth am flwyddyn, gyda phob pâr yn cydweithio i greu gwaith newydd unigryw.
- **Steve Reid InNOVAtion Award**: Prosiect datblygu creadigol arloesol, yn cefnogi artistiaid rhagorol sy'n dod i'r amlwg drwy fentora arbenigol ac ysgoloriaethau hanfodol o hyd at £1,500.

## Y Camau Nesaf

Mae'r cyfleoedd o dan y categori y **Camau Nesaf** yn cefnogi'r rhai sydd ar drothwyon hanfodol yn eu gyrfa. Dyluniwyd y cynlluniau hyn i fynd i'r afael ag anghenion datblygu talent penodol ac maent yn cynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i:

- **Power Up**: menter hirdymor sy'n cefnogi pobl ddu sy'n creu cerddoriaeth a gweithwyr proffesiynol a swyddogion gweithredol du yn y diwydiant, yn ogystal â mynd i'r afael â hiliaeth yn erbyn pobl ddu a gwahaniaethau hiliol yn y sector cerddoriaeth.
- **The Hitmaker Fund**: mae'n cynnig cyfle i gyfansoddwyr caneuon a chynhyrchwyr sy'n gweithio mewn genres cerddoriaeth boblogaidd ddatblygu eu gyrfaoedd a'u sgiliau ysgrifennu/cynhyrchu ymhellach gyda grantiau rhwng £5,000 a £10,000.
- **Composers' Fund:**: cyfle i gyfansoddwyr sydd â phrofiad da, gan roi mynediad uniongyrchol i gyllid ar gamau canolog yn eu gyrfa. Mae grantiau o hyd at £10,000 ar gael.

## Cyfleoedd Rhyngwladol

Mae'r cynlluniau o dan y categori **Cyfleoedd Rhyngwladol** yn cefnogi gweithgarwch y tu allan i'r DU. Mae rhai o'r cyfleoedd yn cynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i:

- **The International Showcase Fund**: mae'n cynnig cymorth allforio hanfodol i artistiaid, bandiau, cyfansoddwyr caneuon a chynhyrchwyr yn y DU sydd wedi cael gwahoddiad i berfformio neu greu cerddoriaeth newydd mewn gwyliau neu gynadleddau arddangos rhyngwladol.
- **Keychange**: menter ryngwladol arloesol sy'n trawsnewid dyfodol cerddoriaeth wrth annog gwyliau a sefydliadau cerddoriaeth i gynnwys 50% o ferched a rhywiau heb gynrychiolaeth ddigonol mewn rhaglennu, staffio a thu hwnt.

**I gael rhagor o wybodaeth:**

**www.prsfoundation.com**

# Y Comisiwn Elusennau

Mae nifer o ffynonellau ariannu, gan gynnwys y rhai a restrir isod, ar gael i grwpiau sydd â statws elusennol yn unig. Mae gwefan y Comisiwn Elusennau yn rhoi gwybodaeth gynhwysfawr a phecyn ymgeisio i bobl sy'n dymuno cofrestru elusen.

Mae'r Comisiwn Elusennau yn cynnig cyngor a chanllawiau ar y broses ymgeisio, ac mae'n darparu dogfennau enghreifftiol a chymorth ynghylch pennu amcanion yr elusen.

**I gael rhagor o wybodaeth:**

**www.gov.uk**

# Grwpiau a Chlybiau Cymunedol

## Ymddiriedolaeth Elusennol Stadiwm y Mileniwm

Mae Ymddiriedolaeth Elusennol Stadiwm y Mileniwm yn darparu grantiau i sefydliadau gwirfoddol yng Nghymru sy'n cefnogi chwaraeon, celf, y gymuned a'r amgylchedd.

Rhoddir nawdd yn ôl yr ardal ddaearyddol y mae gan sefydliad gylch gwaith i'w chwmpasu. Mae'r Ymddiriedolaeth wedi dosbarthu'r lefelau cyllid fel a ganlyn:

- Grantiau Lleol - Prosiect lleol yw lle mae gan y sefydliadau gylch gwaith fel arfer i wasanaethu eu cymuned neu dref leol.

- Grantiau Rhanbarthol - Prosiect rhanbarthol yw lle mae gan y sefydliadau gylch gwaith fel arfer i wasanaethu rhanbarth o Gymru neu ardal awdurdod lleol.

**I gael rhagor o wybodaeth:**

**E-bost:** info@millenniumstadiumtrust.org.uk
**Ffôn:** 029 20 022 143
**Gwefan:** www.millenniumstadiumtrust.org.uk

## Sefydliad Clore Duffield

Mae grantiau rhwng £5,000 a £1 miliwn ar gael i elusennau cofrestredig sy'n cefnogi'r sector diwylliannol, gan gynnwys y celfyddydau perfformio.

**I gael rhagor o wybodaeth:**
**E-bost:** info@cloreduffield.org.uk
**Gwefan:** www.cloreduffield.org.uk

## Ymddiriedolaeth Elusennol Woodward

Mae Ymddiriedolaeth Elusennol Woodward yn dyfarnu grantiau i fentrau elusennol lleol ar raddfa fach yn y DU. Maent yn hoffi prosiectau sy'n hyrwyddo cydlyniant cymunedol a datblygu sgiliau a fydd yn newid rhagolygon a chanlyniadau'r defnyddwyr.

Mae'r Ymddiriedolwyr yn rhoi dau fath o grant – mae'r mwyafrif yn grantiau llai, tua 100 y flwyddyn, o hyd at £3,000, ond fel arfer yn £1,000 neu lai; ac ychydig o grantiau mwy o dros £3,000, dim ond i elusennau sy'n hysbys i'r Ymddiriedolwyr. Mae'r Ymddiriedolaeth hefyd yn cynnig grantiau untro blynyddol o £250-£1,000 y flwyddyn tuag at Gynlluniau Chwarae Haf i Blant.

**I gael rhagor o wybodaeth:**

**E-bost:** contact@woodwardcharitabletrust.org.uk
**Gwefan:** www.woodwardcharitabletrust.org.uk

## Ymddiriedolaeth Austin a Hope Pilkington

Mae Ymddiriedolaeth Austin a Hope Pilkington yn dyfarnu grantiau i elusennau cofrestredig yn y DU sy'n gweithio gyda chymunedau yn y DU. Ei nod yw rhoi

grantiau i'r rheini mewn cymdeithas sy'n wynebu'r heriau mwyaf ac y mae eu cyfleoedd yn fwyaf cyfyngedig.

Mae'r Ymddiriedolaeth yn canolbwyntio ar flaenoriaethau penodol bob blwyddyn. Oherwydd yr effaith negyddol y mae Covid-19 wedi'i chael ar bob maes o'r celfyddydau, ac yn enwedig ar y cyfleoedd i bobl ifanc dalentog, bydd pob grant yn 2022 yn canolbwyntio ar Y Celfyddydau.

Bydd Rownd Grant 1 a Rownd Grant 2 yn canolbwyntio ar gefnogi pobl ifanc yn y celfyddydau. Bydd Rownd Grant 3 a Rownd Grant 4 yn canolbwyntio ar brosiectau a mentrau a fydd yn helpu i unioni cydbwysedd tangynrychiolaeth pobl BAME ym mhob rhan o'r celfyddydau.

**I gael rhagor o wybodaeth:**

**E-bost:** admin@austin-hope-pilkington.org.uk
**Gwefan:** www.austin-hope-pilkington.org.uk

## Ymddiriedolaeth Elusennol Fidelio

Mae Fidelio yn croesawu ceisiadau am grantiau i gefnogi'r Celfyddydau yn enwedig ar gyfer Cerddoriaeth, gan gynnwys Opera, Lieder, Cyfansoddi a Dawns.

Nod Fidelio yw rhoi cymorth i unigolion neu grwpiau o allu eithriadol, i'w galluogi er enghraifft, i wneud y canlynol:

- Derbyn hyfforddiant neu hyfforddiant arbennig (e.e. yn achos cerddorion i ddilyn Dosbarthiadau Meistr)
- Cymryd rhan mewn cystadlaethau allanol
- Rhoi cymorth iddynt ar gyfer perfformiad wedi'i drefnu'n arbennig
- Derbyn cymorth ar gyfer cyhoeddiad arbennig, cyfansoddi cerddorol neu waith celf

Mae angen i geisiadau gael eu cefnogi gan Sefydliadau, Colegau, Gwyliau Celfyddydau neu sefydliadau celfyddydau tebyg eraill yn y Deyrnas Unedig sydd ag arbenigedd perthnasol cydnabyddedig. Ni fydd ceisiadau gan unigolion neu grwpiau sy'n ceisio cyllid ar eu cyfer eu hunain neu eu plant heb gefnogaeth o'r fath yn cael eu hystyried. Yn gyffredinol, nid yw ceisiadau'n cael eu hystyried ar gyfer gweithgareddau i bobl o dan 21 oed, neu ar gyfer ffioedd cwrs, eitemau cyfalaf neu wariant ôl-weithredol.

**I gael rhagor o wybodaeth:**

**E-bost: admin@fideliocharitabletrust.org.uk**
**Gwefan: www.fideliocharitabletrust.org.uk**

## Elephant Trust

Mae'r Elephant Trust yn dyfarnu grantiau sydd fel arfer yn gyfyngedig i £2,000 i artistiaid, sefydliadau ac orielau bach o fewn y Deyrnas Unedig i'w gwneud yn bosibl i artistiaid a'r rheini sy'n cyflwyno'u gwaith ymgymryd â phrosiectau a'u cwblhau pan fyddant yn cael eu rhwystro oherwydd ddiffyg arian.

Mae'r Ymddiriedolaeth yn ymrwymedig i helpu artistiaid a sefydliadau/orielau sy'n cefnu ar y drefn arferol ac yn dangos posibiliadau newydd, gwahanol a llawn dychymyg.

**I gael rhagor o wybodaeth:**

**E-bost: ruth@elephanttrust.org.uk**
**Gwefan: www.elephanttrust.org.uk**

## Sefydliad Anchor

Mae Sefydliad Anchor yn cynnig grantiau rhwng £500 a £10,000 y flwyddyn am dair blynedd i elusennau Cristnogol sydd wedi'u cofrestru yn y DU ar gyfer prosiectau sy'n annog cynhwysiad cymdeithasol drwy weinidogaethau iachau a'r celfyddydau.

Caiff ceisiadau eu hystyried yng nghyfarfodydd yr ymddiriedolwyr ddwywaith y flwyddyn, ym mis Ebrill a mis Tachwedd, ac mae angen iddynt ddod i law erbyn 31 Ionawr a 31 Gorffennaf bob blwyddyn.

**I gael rhagor o wybodaeth:**

**E-bost: secretary@theanchorfoundation.org.uk**
**Gwefan: www.theanchorfoundation.org.uk**

## Ymddiriedolaeth Leverhulme

Mae Ymddiriedolaethau Leverhulme yn dyfarnu cyllid ar draws disgyblaethau academaidd, gan gefnogi unigolion talentog yn y celfyddydau, y dyniaethau, y gwyddorau a'r gwyddorau cymdeithasol i wireddu eu gweledigaeth bersonol mewn ymchwil a hyfforddiant proffesiynol. Yn ogystal â grantiau sylweddol ar gyfer ymchwil, maen nhw'n cynnig cymrodoriaethau i ymchwilwyr ar bob cam

o'u gyrfa, grantiau ar gyfer cydweithredu a theithio rhyngwladol, a chefnogaeth i'r celfyddydau cain a pherfformio.

**I gael rhagor o wybodaeth:**

**E-bost:** grants@leverhulme.ac.uk
**Gwefan:** www.leverhulme.ac.uk

## Ymddiriedolaeth Idlewild

Mae Ymddiriedolaeth Idlewild yn darparu cymorth ariannol i brosiectau sy'n ymwneud ag annog y celfyddydau perfformio/cain a gwarchod adeiladau/gwrthrychau hardd ac eitemau o ddiddordeb hanesyddol neu bwysigrwydd cenedlaethol er lles y cyhoedd.

Mae grantiau hyd at £5,000 ar gael i elusennau sydd wedi'u cofrestru yn y DU neu elusennau sydd wedi'u heithrio'n gyhoeddus.

**I gael rhagor o wybodaeth:**

**E-bost:** info@idlewildtrust.org.uk
**Gwefan:** www.idlewildtrust.org.uk

## Ymddiriedolaeth Elusennol Colwinston

Nod Ymddiriedolaeth Elusennol Colwinston yw cefnogi sefydliadau elusennol yn y DU (yn enwedig yng Nghymru) sy'n gweithio mewn meysydd fel opera; cerddoriaeth glasurol; y celfyddydau gweledol a llyfrgelloedd ac archifdai. Mae'r rhan fwyaf o'r grantiau sydd ar gael yn amrywio rhwng £5,000 a £20,000.

**I gael rhagor o wybodaeth:**

**E-bost:** colwinston.trust@ntlworld.com
**Gwefan**: www.colwinston.org.uk

## Ymddiriedolaeth Elusennol Concertina

Mae Ymddiriedolaeth Elusennol Concertina yn darparu grantiau i sefydliadau elusennol yng Nghymru a Lloegr i wella ansawdd bywyd aelodau oedrannus cymdeithas, drwy adloniant cerddorol a gweithgareddau cysylltiedig.

Uchafswm o £250 yw'r grantiau a'r dyddiadau cau ar gyfer ceisiadau yw 30 Ebrill a 31 Hydref. Ni ellir cysylltu â'r Ymddiriedolaeth dros e-bost na ffôn mwyach. Dim ond ceisiadau copi caled yn y post a dderbynnir.

**I gael rhagor o wybodaeth:**

www.concertinamusic.org.uk

## Elusennau CHK

Mae'r elusen yn dyfarnu grantiau blynyddol sy'n dod i gyfanswm o £2 filiwn i sefydliadau elusennol yn y DU sy'n ymwneud ag amrywiaeth eang o weithgareddau. Mae Sefydliad CHK yn cynnal ei ymchwil ei hun i benderfynu ar yr elusennau y mae am eu hystyried i'w hariannu a bydd yn cysylltu'n uniongyrchol i ddechrau trafodaethau am gyfleoedd.

Maent yn dyfarnu grantiau o dan bedair rhaglen wahanol: Prif Grantiau CHK, Grantiau Cenhadaeth CHK, Grantiau Dewisol CHK a Grantiau Trychineb/Brys CHK.

**I gael rhagor o wybodaeth:**

**E-bost:** admin@chkfoundation.org.uk
**Gwefan:** www.chkcharities.co.uk

## Sefydliad Esmée Fairbairn

Nod Sefydliad Esmée Fairbairn yw gwella'r byd naturiol, sicrhau dyfodol tecach a chryfhau'r bondiau mewn cymunedau yn y DU. Mae blaenoriaethau'r Sefydliad yn cynnwys cefnogi gwaith sydd: yn agor mynediad i yrfa yn y celfyddydau i'r rhai sy'n colli allan ar hyn o bryd, yn cefnogi artistiaid ar eu liwt eu hunain i gynnal a datblygu eu gyrfaoedd yn ystod y cyfnod o adferiad COVID-19 ac ar ôl hynny, a galluogi cenhedlaeth gynhwysol newydd o arweinyddiaeth i fynd i'r afael â heriau yn y sector.

Gellir defnyddio grantiau i gefnogi costau craidd neu brosiect sefydliad, gan gynnwys cyflogau staff a gorbenion. Nid ydynt yn ariannu costau adeiladu nac offer, nac unigolion a cheisiadau grant am £30,000 neu fwy.

**I gael rhagor o wybodaeth:**

**E-bost:** info@esmeefairbairn.org.uk
**Gwefan:** www.esmeefairbairn.org.uk

## Grant Ymddiriedolaeth Celfyddydau Fenton

Nod Grant Ymddiriedolaeth Celfyddydau Fenton yw helpu unigolion a sefydliadau

sy'n cyfrannu at ddiwylliant artistig y wlad ym meysydd drama, paentio, cerflunio, dawns, cerddoriaeth a barddoniaeth. Mae'r Ymddiriedolaeth yn canolbwyntio ei hymdrechion yn benodol ar gefnogi artistiaid ar ddechrau eu gyrfaoedd.

Gall cais ddod gan grŵp, cwmni neu sefydliad neu gan unigolyn cyn belled nad yw'r cais yn cynnwys cefnogi addysg neu hyfforddiant proffesiynol cychwynnol unigolyn.

**I gael rhagor o wybodaeth:**

www.fentonartstrust.org.uk

## Sefydliad Foyle

Mae Sefydliad Foyle yn darparu grantiau i elusennau cofrestredig ac ysgolion a ariennir gan y wladwriaeth ac sydd â chylch gwaith craidd sy'n ymwneud â chelf neu ddysgu. Mae'r meysydd ariannu nodweddiadol yn cynnwys:

- helpu i wneud y celfyddydau yn fwy hygyrch drwy ddatblygu cynulleidfaoedd newydd, cefnogi teithiau, gwyliau a phrosiectau addysgiadol sy'n ymwneud â'r celfyddydau;
- annog gwaith newydd a chefnogi artistiaid ifanc ac artistiaid sy'n dod i'r amlwg; a
- phrosiectau sy'n lleihau costau cyffredinol neu sy'n helpu i greu refeniw ychwanegol.

Gall elusennau wneud cais am gyllid naill ai drwy'r Cynllun Prif Grantiau neu drwy'r Cynllun Grantiau Bach. Mae cynllun Llyfrgell Ysgol Foyle yn agored i ysgolion a ariennir gan y wladwriaeth yn y DU.

**I gael rhagor o wybodaeth:**

**E-bost:** info@foylefoundation.org.uk
**Gwefan:** www.foylefoundation.org.uk

## Sefydliad Garfield Weston

Mae'r Sefydliad yn cefnogi ystod eang o sefydliadau a gweithgareddau sy'n rhannu ymrwymiad i gael effaith gadarnhaol ar fywydau'r cymunedau y maent yn gweithio ynddynt, ac sy'n cael eu gyrru gan awydd i gyflawni rhagoriaeth. Mae'r Sefydliad yn parhau i gefnogi'r Celfyddydau a sefydliadau sy'n swyno ac yn ysbrydoli cynulleidfaoedd ledled y DU. O grwpiau theatr gymunedol bach i orielau

celf cenedlaethol, mae'r Sefydliad wedi cefnogi bywyd diwylliannol y genedl ers blynyddoedd. Mae'r Sefydliad yn rhoi grantiau ar gyfer costau cyfalaf, craidd a phrosiect.

**I gael rhagor o wybodaeth:**

**Ffôn:** (020) 7399 6565
**E-bost:** admin@garfieldweston.org
**Gwefan:** www.garfieldweston.org

## Elusen y Groseriaid

Mae Elusen y Groseriaid yn darparu grantiau untro o hyd at £5,000 ar gyfer elusennau sy'n gweithio yn y meysydd canlynol:

- Rhyddhau o dlodi
- Anabledd
- Yr henoed
- Iechyd
- Milwrol
- Treftadaeth a'r celfyddydau
- Yr amgylchedd
- Plant a phobl ifanc

Dim ond drwy'r ffurflen ar-lein y derbynnir ceisiadau.

**I gael rhagor o wybodaeth:**

**E-bost:** enquiries@grocershall.co.uk
**Gwefan:** www.grocershall.co.uk

## Jerwood Arts

Cyllidwr annibynnol yw Jerwood Arts sydd wedi ymrwymo i gefnogi artistiaid, curaduron a chynhyrchwyr rhagorol yn y DU i ddatblygu a ffynnu. Mae rhaglenni Jerwood Arts yn darparu cyfleoedd trawsnewidiol i unigolion ar ddechrau eu gyrfa trwy wobrau, cymrodoriaethau a chomisiynau, ac maent yn cyflwyno arddangosfeydd yn eu horiel yn Llundain ac ar daith genedlaethol.

**I gael rhagor o wybodaeth:**

**E-bost: info@jerwoodarts.org**
**Gwefan: www.jerwoodarts.org**

## Sefydliad John Ellerman

Mae Sefydliad John Ellerman yn dosbarthu tua £5 miliwn y flwyddyn i brosiectau yn y DU yn y meysydd blaenoriaeth canlynol:

- Y celfyddydau
- Yr amgylchedd
- Gweithredu cymdeithasol

Mae'r Sefydliad yn canolbwyntio ei gyllid Celf o dan ddau bennawd ar wahân: Rhai sy'n creu ym maes celfyddydau perfformio a Churaduron mewn amgueddfeydd ac orielau y tu allan i Lundain. Gellir defnyddio grantiau ar gyfer costau craidd neu gostau prosiect. Y grant lleiaf yw tua £10,000 ac nid oes uchafswm. Rhaid i ymgeiswyr fod yn elusennau cofrestredig sydd â swyddfa yn y DU.

**I gael rhagor o wybodaeth:**

**E-bost: Gareth@ellerman.org.uk**
**Gwefan: www.ellerman.org.uk**

## Sefydliad Teulu Ashley

Mae Sefydliad Teulu Ashley yn darparu grantiau i elusennau yn y DU, sefydliadau anghorfforedig a grwpiau cymunedol sy'n annog cyfranogaeth yn y celfyddydau (yn enwedig tecstiliau). Nid oes unrhyw derfyn penodol ar gyfer y swm y gellir ei ddyfarnu. Fodd bynnag, rhoddir blaenoriaeth i geisiadau sydd o dan £10,000.

**I gael rhagor o wybodaeth:**

**E-bost: info@ashleyfamilyfoundation.org.uk**
**Gwefan: www.ashleyfamilyfoundation.org.uk**

## Sefydliad Paul Hamlyn

Sefydliad Paul Hamlyn yw un o'r rhoddwyr grantiau annibynnol mwyaf yn y DU. Mae blaenoriaethau ariannu'r Sefydliad yn cynnwys: ehangu mynediad a chyfranogiad yn y celfyddydau a gwella addysg a dysgu pobl drwy'r celfyddydau.

Mae dwy raglen wedi'u sefydlu i gefnogi'r blaenoriaethau hyn, gyda grantiau rhwng £30,000 a £ 400,000: Cronfa Mynediad a Chyfranogiad y Celfyddydau a Chronfa Dysgu yn y Celfyddydau.

**I gael rhagor o wybodaeth:**

**E-bost:** information@phf.org.uk
**Gwefan:** www.phf.org.uk

## Ymddiriedolaethau Elusennol Teulu Sainsbury

Mae'r ymddiriedolaethau yn cefnogi amrywiaeth o wahanol ddiddordebau, ac mae arian ar gael i sefydliadau elusennol, ysgolion, prifysgolion, sefydliadau cenedlaethol ac ymddiriedolaethau a sefydliadau eraill.

Gellir gwneud cais unrhyw adeg, ond mae'n bosibl y cânt eu hystyried ar adegau amrywiol yn dibynnu ar yr Ymddiriedolaeth. Nid oes uchafswm nac isafswm wedi'i nodi ar gyfer y swm y gellir ei dyfarnu.

**I gael rhagor o wybodaeth:**

**Ffôn:** (020) 7410 0330
**Gwefan:** www.sfct.org.uk

## Y Gronfa Gelf

Mae'r Gronfa Gelf yn cefnogi gwaith hanfodol amgueddfeydd ac orielau ledled y DU. Maent yn rhoi grantiau i helpu amgueddfeydd i gaffael a rhannu gweithiau celf, cefnogi datblygiad proffesiynol curaduron, ac ysbrydoli ac ennyn diddordeb cynulleidfaoedd newydd.

Maent wedi addasu eu rhaglenni cyllido cyfredol i helpu amgueddfeydd ac orielau i oroesi argyfwng Covid-19.

**I gael rhagor o wybodaeth:**

**E-bost:** info@artfund.org
**Gwefan:** www.artfund.org

## Ymddiriedolaeth Wakeham

Mae Ymddiriedolaeth Wakeham yn hoffi helpu prosiectau ar raddfa fach ac a fyddai'n ei chael hi'n anodd cael cyllid gan ymddiriedolaethau mawr; neu sy'n

anffasiynol neu'n amhoblogaidd ar hyn o bryd ymhlith cyllidwyr prif ffrwd, ond sy'n gwneud cyfraniad gwirioneddol. Mae'r Ymddiriedolaeth fel arfer yn rhoi grantiau i brosiectau lle gall £125 i £2,500 cychwynnol wneud gwahaniaeth go iawn.

**I gael rhagor o wybodaeth:**

**E-bost:** TheWakehamTrust@icloud.com
**Ffôn**: (01730) 821748
**Gwefan:** www.wakehamtrust.org

## Sefydliad Wolfson

Mae Sefydliad Wolfson yn darparu grantiau rhwng £1,000 a £3 miliwn ar gyfer seilwaith cyfalaf fel rheol ym maes gwyddoniaeth a meddygaeth, iechyd, addysg a'r celfyddydau a dyniaethau.

**I gael rhagor o wybodaeth:**

**Ffôn**: (020) 7323 5730
**E-bost:** grants@wolfson.org.uk
**Gwefan:** www.wolfson.org.uk

## Dyfarniadau i Gerddorion Ifanc

Mae'r elusen yn cefnogi offerynwyr ifanc mwyaf talentog y DU rhwng pump ac 17 oed a all, oherwydd angen ariannol, fod yn cael eu hatal rhag cyflawni eu potensial creadigol. Mae'r elusen yn cynorthwyo plant cerddorol dawnus mewn teuluoedd lle mae cyfyngiadau ar incwm, i'w helpu i ddatblygu eu potensial.

Ymhlith y costau cymwys mae gwersi cerdd preifat, ffioedd ysgolion cerdd, prynu neu logi offerynnau, costau teithio ac ategolion.

**I gael rhagor o wybodaeth:**

**E-bost:** enquiries@a-y-m.org.uk
**Gwefan:** www.a-y-m.org.uk

### Cwmni Skinners: Elusen Lady Neville

- Mae Elusen Lady Neville yn darparu grantiau ar gyfer prosiectau ym myd y Celfyddydau a Threftadaeth (ledled y DU). Gall prosiectau Celfyddydau a Threftadaeth cymwys gynnwys; prosiectau treftadaeth lleol sy'n helpu grwpiau lleol i warchod ac adfer eu tirnodau, tirwedd, traddodiadau a diwylliant; Sefydliadau Celfyddydau Perfformio a Gweledol sy'n ymwneud â pherfformiadau a gweithgareddau celf, cerddoriaeth a drama.
- Mae grantiau o hyd at £10,000 ar gael ar gyfer eitemau cyfalaf. Ni fydd costau refeniw yn cael eu hariannu.

**I gael rhagor o wybodaeth:**

**Ffôn**: (020) 7213 0562
**E-bost:** **charitiesadmin@skinners.org.uk**
**Gwefan: www.skinnershall.co.uk**

## Arian y Loteri

Mae cangen Cymru o **Gronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol** yn darparu arian ar gyfer amrywiaeth o wahanol brosiectau sy'n cyflawni'r blaenoriaethau a nodir mewn polisïau a osodwyd gan Lywodraeth Cymru.

Mae gan wefan Cronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol opsiwn i chwilio am **Raglenni Ariannu** i alluogi unigolion a grwpiau cymunedol i ddod o hyd i gyllid ar gyfer amrywiaeth o wahanol brosiectau.

Gellir cysylltu â Llinell Gyngor Cronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol ar **029 2168 0214 Neu** **wales@tnlcommunityfund.org.uk**

## Grantsnet

Mae Grantnet yn adnodd ariannu allweddol ar gyfer busnesau, elusennau, mentrau cymdeithasol, grwpiau cymunedol a sefydliadau gwirfoddol o bob lliw a llun.

**I gael rhagor o wybodaeth:**

**Gwefan: www.grantsnet.co.uk**

# Cymorth Awdurdodau Lleol

Isod, ceir manylion cyswllt y 22 awdurdod lleol yng Nghymru. Gall y cymorth amrywio rhwng pob awdurdod lleol, felly dylai unigolion gysylltu â'u hawdurdodau lleol perthnasol i gael gwybod pa gyllid sydd ar gael yn eu hardal leol.

- **Cyngor Blaenau Gwent**
  **Ffôn:** (01495) 355140
  **E-bost:** **grants2@blaenau-gwent.gov.uk**
- **Cyngor Pen-y-bont ar Ogwr**
  **Ffôn:** 01656 643643
  **E-bost:** **talktous@bridgend.gov.uk**
- **Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili**
  Ffôn: 01443 815588
  E-bost: **info@caerffili.gov.uk**
- **Cyngor Caerdydd**
  **Ffôn:** 02920 872088 (Cymraeg)
  0292 0872087 (Saesneg)
  **E-bost:** **c2c@caerdydd.gov.uk**
- **Cyngor Sir Caerfyrddin**
  **Ffôn:** 01267 234567
  **E-bost:** **galw@sirgar.gov.uk**
- **Cyngor Sir Ceredigion**
  **Ffôn:** 01970 633331
  **E-bost:** **financegrants@ceredigion.gov.uk**
- **Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy**
  **Ffôn:** 01492 574000
  **E-bost:** **gwybodaeth@conwy.gov.uk**
- **Cyngor Sir Ddinbych**
  **Ffôn:** 01824 706000
  **E-bost:** **gwasanaethcwsmer@sirddinbych.gov.uk**
- **Cyngor Sir y Fflint**
  **Ffôn: 01352 744004**
  **E-bost: Heather.Hicks@flvc.org.uk**

- Cyngor Gwynedd
  **Ffôn:** 01766 771000
  Ffurflen Ymholiadau
- Cyngor Sir Ynys Môn
  **Ffôn:** 01248 750057
  **E-bost:** Tudalen Gyswllt
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful
  **Ffôn: 01685 725000**
  **E-bost:** customer.care@merthyr.gov.uk
- Cyngor Sir Fynwy
  **Ffôn:** 01633 644644
  **E-bost:** cyswllt@monmouthshire.gov.uk
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot
  **Ffôn:** 01639 686868
  **E-bost:** contactus@npt.gov.uk
- Cyngor Dinas Casnewydd
  **Ffôn:** 01633 656656
  **E-bost:** info@newport.gov.uk
  Cyngor Sir Penfro
  **Ffôn:** 01437 764551
  **E-bost:** ymholiadau@sir-benfro.gov.uk
- Cyngor Sir Powys
  **Ffôn:** 01597 827460
  **E-bost:** customerservices@powys.gov.uk
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf
  **Ffôn:** 01443 425005
  Ffurflen Ymholiadau
- Dinas a Sir Abertawe
  **Ffôn:** 01792 636000
  **E-bost:** Tudalen Gyswllt
- Cyngor Bro Morgannwg
  **Ffôn:** 01446 700 111
  Ffurflen Ymholiadau
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen
  **Ffôn: 01495 762200**
  **E-bost:** calltorfaen@torfaen.gov.uk
  Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam

**Ffôn:** 01978 292000
Ffurflen Ymholiadau

## Cynghorau Gwirfoddol Sirol

Bydd y Cyngor Gwirfoddol Sirol yn gallu cynghori unigolion am ffynonellau o gymorth ariannol ar gyfer yr ardal benodol honno.

Mae gwefannau'r rhan fwyaf o Gynghorau Gwirfoddol Sirol yn darparu taflenni ffeithiau am ariannu. Gellir eu gweld ar eu gwefannau.

- Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Gwent
**Ffôn:** 01633 241550
**E-bost: info@gavo.org.uk**
**Gwefan:** www.gavowales.org.uk
- Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Pen-y-bont ar Ogwr
**Ffôn:** 01656 810400
**E-bost: bavo@bavo.org.uk**
**Gwefan:** www.bavo.org.uk
- Cyngor Trydydd Sector Caerdydd
**Ffôn:** 029 2048 5722
**E-bost:** enquiries@c3scv.org.uk
**Gwefan:** www.c3sc.org.uk
- Cymdeithas Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Gaerfyrddin
**Ffôn:** 01267 245555
**E-bost:** info@cavs.org.uk
**Gwefan:** www.cavs.org.uk
- Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Ceredigion
**Ffôn:** 01570 423232
**E-bost:** gen@cavo.org.uk
**Gwefan:** www.cavo.org.uk
- Cyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Conwy
**Ffôn:** 01492 534091
**E-bost:** mail@cvsc.org.uk
**Gwefan:** www.cvsc.org.uk
- Cyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Ddinbych
**Ffôn:** 01824 702441
**E-bost:** office@dvsc.co.uk

**Gwefan:** www.dvsc.co.uk

- Cyngor Gwirfoddol Lleol Sir y Fflint
**Ffôn:** 01352 744000
**E-bost:** info@flvc.org.uk
**Gwefan:** www.flvc.org.uk
- Gwynedd
**Ffôn:** 01286 672626
**E-bost:** ymholiadau@mantellgwynedd.com
**Gwefan:** www.mantellgwynedd.com
- Ynys Môn - Medrwn Môn
**Ffôn:** 01248 724944
**E-bost:** post@medrwnmon.org
**Gwefan:** www.medrwnmon.org
- Gweithredu Gwirfoddol Merthyr Tudful
**Ffôn:** 01685 353900
**E-bost:** **enquiries@vamt.net**
**Gwefan:** www.vamt.net
- Gwasanaethau Gwirfoddol Cyngor Castell-nedd Port Talbot
**Ffôn:** 01639 631246
**E-bost:** info@nptcvs.org.uk
**Gwefan:** https://www.nptcvs.wales/
- Cymdeithas Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Benfro
**Ffôn:** 01437 769422
**E-bost:** enquiries@pavs.org.uk
**Gwefan:** www.pavs.org.uk
- Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Powys
**Ffôn:** 01597 828675
**E-bost:** Ffurflen ymholiad
**Gwefan** www.pavo.org.uk
- Rhondda Cynon Taf - Interlink
**Ffôn:** 01443 846200
**E-bost:** **info@interlinkrct.org.uk**
**Gwefan** www.interlinkrct.org.uk
- Cyngor y Gwasanaethau Gwirfoddol Abertawe
**Ffôn:** 07943 189265

**E-bost:** scvs@scvs.org.uk
**Gwefan:** www.scvs.org.uk

- Cynghrair Gwirfoddol Torfaen
**Ffôn:** 01495 365610
**E-bost:** info@tvawales.org.uk
**Gwefan** www.tvawales.org.uk
- Gwasanaethau Gwirfoddol (Bro) Morgannwg
**Ffôn:** 01446 741706
**Gwefan** www.gvs.wales
- Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Wrecsam
**Ffôn:** 01978 312556
**E-bost:** info@avow.org
**Gwefan** www.avow.org